
Y Farchnad Gyfathrebu: Adroddiad ar Radio Digidol

Wythfed adroddiad blynyddol Ofcom ar y cynnydd digidol

Dogfen ymchwil:

Dyddiad Cyhoeddi: 30 Tachwedd 2017

Gair am y ddogfen hon

Dyma wythfed cyhoeddiad blynyddol Ofcom am y cynnydd sy'n digwydd gyda radio digidol yn y DU. Bwriad cyhoeddi'r adroddiad yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am argaeledd radio digidol, y nifer sy'n manteisio arno, patrymau gwranddo ac agweddau at radio digidol yn unol â chais y Llywodraeth yn wreiddiol yn 2010 fel rhan o'i Chynllun Gweithredu ar Radio Digidol.

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio data o ymchwil defnyddwyr Ofcom ei hun ac ymchwil RAJAR yn bennaf; mae'n arf cyfeirio ar gyfer diwydiant, rhanddeiliaid a defnyddwyr. Rydym wedi cyhoeddi'r data mewn adnodd rhyngweithiol, sydd ar gael drwy'r ddolen ganlynol:

<https://www.ofcom.org.uk/research-and-data/tv-radio-and-on-demand/radio-research/digital-radio-reports/digital-radio-report-2017-interactive-data>

Crynodeb gweithredol

Y sail dros gyhoeddi'r adroddiad

Ym mis Gorffennaf 2010, lansiodd Llywodraeth y DU ei Chynllun Gweithredu ar Radio Digidol.¹ Fel rhan o hwn, gofynnodd i Ofcom lunio adolygiad blynyddol o'r farchnad radio digidol. Lanswyd y Cynllun Gweithredu i sicrhau y bydd y broses o newid i ddigidol ym maes radio, os a phryd y bydd hynny'n digwydd, yn cael ei chyflwyno ar adeg pan fydd y farchnad yn barod, ac mewn ffordd a fydd yn diogelu anghenion gwrandawyr.

Dywedodd y Llywodraeth y byddai'n ystyried penderfyniad ynghylch a ddylid gosod dyddiad ar gyfer y newid i radio digidol pan gyflawnwyd y meini prawf canlynol:

- pan fydd 50% o'r holl wrando a wneir ar y radio yn digwydd drwy lwyfannau digidol; a
- pan mae'r ddarpariaeth DAB² genedlaethol yn cymharu ag FM, a DAB lleol yn cyrraedd 90% o'r boblogaeth a phob priffordd.

Cwblhawyd y Cynllun Gweithredu ym mis Tachwedd 2013 ac, ar 16 Rhagfyr 2013, cyhoeddodd y Llywodraeth nad oedd yr amser yn briodol i ymrwmo i'r newid i radio digidol er bod twf cyson wedi bod yn y nifer sy'n gwrandao'n ddigidol. Cyhoeddwyd y fersiwn olaf o'r Cynllun Gweithredu ar Radio Digidol ym mis Ionawr 2014.

Er bod y Cynllun Gweithredu wedi bod i ben, mae Ofcom yn parhau i fonitro'r ddarpariaeth radio digidol, y defnydd o radio digidol ac agweddau. Dyma wythfed Adroddiad Radio Digidol Ofcom. Mae'n diweddarau'r pwyntiau data yn yr adroddiadau blaenorol a luniwyd fel rhan o'r Cynllun Gweithredu. Mae'n edrych ar argaeledd radio digidol a chwmpas y ddarpariaeth, nifer y bobl sy'n defnyddio radio digidol a'r patrymau gwrandao, ac yn defnyddio ymchwil Ofcom ymysg cwsmeriaid i sôn am agweddau pobl at radio digidol a'u hymwybyddiaeth ohono.

Yn yr adroddiad hwn defnyddir 'radio digidol' yn ei ystyr ehangaf i gynnwys pob llwyfan a thechnoleg sy'n galluogi gwrandawyr i ddefnyddio gwasanaethau radio digidol. Mae hyn yn cynnwys DAB, gwasanaethau radio drwy gyfrwng y rhyngwrwyd a'r gwasanaethau radio sydd ar gael drwy lwyfannau teledu (e.e. Freeview, Sky a Virgin).

Eleni rydym yn defnyddio adnodd gweledol data rhyngweithiol i gyflwyno'r data, ynghyd â'r crynodeb gweithredol yn y ddogfen hon, er mwyn gwella'r ffordd rydym yn cyflwyno'r data. Mae hyn yn galluogi cael golwg fwy manwl ar ddata radio digidol a chreu safbwyntiau penodol. Mae'r adnodd ar gael yma:

<https://www.ofcom.org.uk/research-and-data/tv-radio-and-on-demand/radio-research/digital-radio-reports/digital-radio-report-2017-interactive-data>

¹ Mae'r Cynllun Gweithredu ar Radio Digidol ar gael yma:

<https://www.gov.uk/government/publications/digital-radio-action-plan>

² Ystyr y llythrennau DAB ydy digital audio broadcasting (Darlledu Sain Digidol) sef y dechnoleg darlledu radio digidol sydd wedi'i mabwysiadu yn y DU.

Ffynonellau data

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio ystod o ddata o'r ffynonellau canlynol:

- Data RAJAR o'r gwranddo a wneir ar y radio a'r defnydd o radio DAB (Ch3 2017).
- Data ymchwil Traciwr Technoleg Ofcom³ - defnydd o'r gwasanaethau a'r dyfeisiau (sylwch fod y defnydd o set radio DAB wedi'u cymryd o RAJAR), lleoliad setiau radio yn y cartref, ymwybyddiaeth o setiau radio a dyfeisiau digidol y gellir eu defnyddio i gael radio digidol, profiadau o ddefnyddio radio digidol, a thebygrwydd o brynu setiau DAB.
- Data trwyddedu Ofcom - data darpariaeth DAB leol, data darpariaeth analog a nifer y gorsafoedd radio masnachol, o fis Hydref 2017.
- Data'r BBC - darpariaeth y BBC a nifer gorsafoedd radio'r BBC, o fis Hydref 2017.
- Data darpariaeth Arqiva ar gyfer darpariaeth DAB fasnachol genedlaethol, o fis Hydref 2017.
- Ystadegau gwerthiant offer adwerthu GfK (y flwyddyn tan Ch3 2017).
- Data'r Gymdeithas ar gyfer Gwneuthurwyr a Masnachwyr Cerbydau Modur (SMMT) ynghylch nifer y setiau radio DAB mewn ceir sy'n cael eu cofrestru o'r newydd (Ch3 2017).

Fel gydag unrhyw ddata o arolygon, mae cyfwng gwall yn berthnasol i ddata Traciwr Technoleg Ofcom; mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael yn yr Adroddiad Technegol.⁴

Cafodd safle'r adran radio yn Nhraciwr Technoleg Ofcom ei newid yn arolwg 2017. Mae'n debyg fod y newid hwn wedi cael rhywfaint o effaith ar ddata tueddiadau, felly nid yw cymariaethau o un flwyddyn i'r llall wedi cael eu darparu.

Prif bwyntiau

Ffigur 1: Darpariaeth DAB

		BBC ledled y DU	DAB masnachol ledled y DU		DAB Lleol ⁵
			Digital One	Sound Digital	
Y DU	Cartrefi	97.4%	91.7%	77.0%	tua 90%
	Priffyrdd	87.4%	80.2%	66.9%	tua 76%
Lloegr	Cartrefi	98.4%	94.8%	80.7%	

³ Mae Traciwr Technoleg Ofcom yn cael ei ddefnyddio ar draws camau ymchwil amrywiol, y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn fel Ch2 ar gyfer 2012-2014 (a gynhaliwyd rhwng Mai a Gorffennaf), a H2 ar gyfer 2015-2017 (a gynhaliwyd rhwng Gorffennaf a Medi yn 2015 a 2016, a Gorffennaf ac Awst yn 2017).

⁴ Adroddiad Technegol Traciwr Technoleg Ofcom Hanner 2 2017:

https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0022/107365/Tech-Tracker-Technical-Report-H2-2017.pdf

⁵ Caiff y ffigurau DAB lleol eu hamcangyfrif fel manylion ar gyfer yr ychydig drosglwyddyddion DAB lleol olaf oedd yn cael eu cwblhau pan oedd yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi. Byddwn yn cyhoeddi'r ffigurau wedi'u diweddarau maes o law.

		DAB masnachol ledled y DU		
		BBC ledled y DU	Digital One	Sound Digital
Yr Alban	Priffyrdd	94.5%	93.9%	82.1%
	Cartrefi	95.3%	81.7%	65.4%
Cymru	Priffyrdd	69.1%	45.5%	32.5%
	Cartrefi	92.2%	67.5%	52.0%
Gogledd Iwerddon	Priffyrdd	78.1%	53.3%	34.8%
	Cartrefi	87.3%	85.4%	56.8%
	Priffyrdd	79.3%	86.9%	55.0%

Ffigur 2: Y nifer â radio digidol

	2017	2016
Y nifer â radio DAB yn y cartref	61%	57%
Y nifer â rhyngrwyd yn y cartref	89%	86%
Y nifer â theledu yn y cartref	97%	95%
Cyfran ddigidol o'r holl wrando sy'n cael ei wneud ar y radio	48.8%	45.5%
Cyfran DAB o'r holl wrando sy'n cael ei wneud yn ddigidol	73.6%	71.1%
Cyfran ar-lein o'r holl wrando sy'n cael ei wneud yn ddigidol	16.3%	17.6%
Cyfran teledu o'r holl wrando sy'n cael ei wneud yn ddigidol	10.0%	11.3%

Mae darpariaeth ac argaeledd DAB yn amrywio ledled y DU

Mae gwasanaethau radio digidol ar gael drwy DAB, y teledu a'r rhyngrwyd. Mae darpariaeth DAB yn arbennig yn amrywio: fel y dangosir yn Ffigur 1, mae gwahaniaethau sylweddol rhwng gwledydd y DU. Mae nifer y gwasanaethau radio digidol DAB lleol sydd ar gael hefyd yn amrywio ledled y DU. Mae cyfanswm o 337 o orsafoedd radio yn darlledu ar DAB. O'r rhain, mae 31 yn wasanaethau

masnachol ledled y DU ac mae 11 yn orsafoedd gan y BBC sydd ar gael ledled y DU. Mae cyfanswm nifer y gorsafoedd DAB yn amrywio o 264 yn darlledu yn Lloegr, i 76 yn yr Alban, 62 yng Nghymru a 53 yng Ngogledd Iwerddon.⁶ Mae 595 o orsafoedd radio yn darlledu ar analog, gan gynnwys tair gorsaf fasnachol ledled y DU a phum gorsaf BBC ledled y DU.

Mae gwasanaethau teledu a rhyngwyd ar gael yn eang ar draws y DU.⁷ Mae ystod a nifer y gwasanaethau radio sydd ar gael ar lwyfannau teledu digidol yn amrywio yn ôl llwyfan a lleoliad. Fel enghraifft o nifer sylweddol y gorsafoedd radio sydd ar gael ar-lein, roedd y gronfa ddata o orsafoedd sydd ar gael ar Tunel (gwasanaeth ar-lein sy'n ffrydio cynnwys radio byw drwy borwr neu ap), yn cynnwys tua 120,000 o orsafoedd sydd ar gael yn rhyngwladol ym mis Tachwedd 2017.

Mae bron i dri chwarter gwrandawyr analog a DAB dros 35 oed, o'i gymharu â 57% o wrandawyr ar-lein

Mae naw oedolyn o bob deg yn gwrandao ar y radio bob wythnos, ac mae hyn yn amrywio o 83% o bobl 15-24 oed i 94% o bobl 55-64 oed. Mae bron hanner yr amser a dreulir yn gwrandao ar unrhyw radio (48.8%) bellach drwy lwyfan digidol. Fodd bynnag, mae'r ffaith bod 31 o orsafoedd masnachol ar gael ar DAB ledled y DU, o'i gymharu â dim ond tair gorsaf analog, yn golygu bod 74.4% o'r holl wrando a wneir ar y gwasanaethau hyn yn ddigidol. Mae hyn o'i gymharu â 50.8% o'r gwrandao a wneir yn ddigidol ar wasanaethau'r BBC ledled y DU. Mae'r rhan fwyaf o wrando digidol a wneir yn digwydd drwy DAB, gyda bron i dri chwarter yr oriau digidol (73.6%) yn deillio o'r llwyfan hwn. Mae'r cyfrannau gwrandao digidol a wneir drwy'r rhyngwyd yn is (16.3%) yn ogystal â drwy'r teledu (10.0%).

Mae tebygrwydd ym mhroffil oedran y rheini sy'n gwrandao drwy set radio analog a'r rheini sy'n gwrandao drwy radio DAB; mae dros saith ym mhob deg y ddau fath o wrandawyr dros 35 oed (72% o wrandawyr analog a 73% o wrandawyr DAB). Mae hyn yn wahanol i'r gwrandawyr radio ar-lein, y mae 43% ohonynt dan 35 oed. Mae'r rhaniad rhwng dynion a menywod yn debyg ar draws y rhan fwyaf o lwyfannau, ac eithrio DTV, lle mae 58% o'r gwrandawyr yn fenywod.

Er bod cyfran ddigidol yr holl wrando a wneir ledled y DU ychydig dan 50% erbyn hyn, mae'n amrywio o 31% yng Ngogledd Iwerddon, i dros 60% mewn rhannau o Loegr.

Mae gwahaniaethau ledled y wlad o ran cyfran yr oriau sy'n cael eu treulio yn gwrandao drwy lwyfan digidol. Yng Ngogledd Iwerddon mae'r gyfran leiaf o wrando digidol, lle maent yn gwrandao llai na thraean (31.2%) o oriau yn ddigidol. Mae hyn yn wahanol i Berkshire, yn ne ddwyrain Lloegr, lle mae 60.4% o bobl yn gwrandao drwy lwyfan digidol.

Dim ond dwy orsaf ddigidol sy'n cyrraedd dros ddwy filiwn o wrandawyr: BBC 6 Music (2.4 miliwn o oedolion, 4.5% o'r boblogaeth) a BBC Radio 4 Extra (2.2 miliwn o oedolion, 4.0% o'r boblogaeth). Kisstory yw'r orsaf fasnachol ddigidol yn unig sydd â'r nifer fwyaf o wrandawyr - mae 1.8 miliwn yn

⁶ Mae'r gorsafoedd cenedlaethol yn darlledu yn y pedair gwlad, ac mae rhai gorsafoedd lleol yn darlledu mewn mwy nag un wlad, felly nid yw cyfansymiau'r gwledydd yn arwain at y cyfanswm cyffredinol.

⁷ Gellir cael manylion y ddarpariaeth yn Adroddiad Cysylltu'r Gwledydd Ofcom: <https://www.ofcom.org.uk/cymru/research-and-data/multi-sector-research/infrastructure-research>

gwrando bob wythnos (3.3% o'r boblogaeth). Mae'r bobl sy'n gwrando ar wasanaethau analog ledled y DU sy'n cael eu darlledu ar AM yn unig nid ar FM yn manteisio ar yr ansawdd sain gwell ar lwyfannau digidol.⁸ Er enghraifft, mae cyfran uwch o oriau BBC Radio 5 Live, sydd ar gael ar AM ond nid ar FM, wedi'u priodoli i lwyfannau digidol (57%). Yn yr un modd, mae argaeledd BBC World Service ar analog yn y DU yn gyfyngedig (BBC Radio 4 dros nos yn unig) ond mae ar gael bob amser ar lwyfannau digidol, sy'n arwain at briodoli 82% o'i oriau i lwyfannau digidol.

Er bod y rhan fwyaf o wrando a wneir yn y cartref drwy lwyfan digidol, mae'r gyfran sy'n gwrando'n ddigidol tra maent yn teithio yn dal o dan 31%.

Y lleoliad mwyaf cyffredin i wrando ar y radio yw yn y cartref, gyda 71% o oedolion yn gwrando yma bob wythnos. Mae oedolion yn fwy tebygol o wrando'n ddigidol yma yn hytrach na drwy set radio analog, gyda gwrando digidol yn cynrychioli 54.7% o oriau gwrando yn y cartref. Erbyn hyn, mae gan chwe oedolyn o bob deg yn y DU (61%) set DAB gartref, er bod hyn yn amrywio o 41% o oedolion mewn rhannau o Gymru i dri chwarter yr oedolion yn ardal Salisbury. DAB yw'r prif lwyfan digidol yn y cartref, gan gynrychioli 70.6% o oriau gwrando digidol yn y cartref.

Fodd bynnag, ar gyfer y 64% o oedolion sy'n gwrando ar y radio tra byddant yn teithio, analog yw'r prif lwyfan o hyd, gan gynrychioli 69.1% o'r gyfran o wrandawyr. Mae cyfran y ceir sy'n cael eu cofrestru o'r newydd yn y DU y mae setiau DAB wedi'u gosod ynddynt wedi codi erbyn hyn i 87.5% (Ch3 2017), sy'n cynrychioli cynnydd o flwyddyn i flwyddyn o 2.2 pwynt canran. Mae nifer y ceir sy'n cael eu cofrestru o'r newydd wedi gostwng 9% ers Ch3 y llynedd. Mae'r cynnydd hwn o ran argaeledd mewn ceir yn dechrau dylanwadu ar ffigurau gwrando; mae un oedolyn o bob pedwar (25.8%) bellach yn gwrando ar radio DAB bob wythnos tra maent mewn cerbyd, mwy na dwbl y ffigur yn 2014 (12.2%).

Roedd gwerthiant setiau radio digidol wedi gostwng wrth gymharu â 2016, ond wedi gostwng ar raddfa arafach na chyfanswm gwerthiant setiau radio

Roedd nifer y setiau radio digidol a werthwyd yn ystod y flwyddyn hyd at Ch3 2017 wedi gostwng o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, i lawr o 1.6 miliwn i 1.5 miliwn, gan gynrychioli 37% o gyfanswm gwerthiant setiau radio. Roedd cyfanswm nifer y setiau radio a werthwyd yn ystod y cyfnod hwn yn 4.1 miliwn, i lawr o 4.7 miliwn yn y flwyddyn flaenorol. Dywedodd dros hanner y rheini fod ganddyn nhw setiau radio yn y cartref fod ganddyn nhw set radio yn eu cegin (56%), tra dywedodd tua phedwar o bob deg fod ganddyn nhw un yn eu hystafell fyw (39%) a dywedodd tua thraean (34%) fod ganddyn nhw un mewn ystafell wely oedolyn. Mae gan naw deg saith y cant o gartrefi setiau teledu digidol y gall pobl eu defnyddio i wrando ar radio digidol, ac mae gan 89% o bobl gysylltiad rhyngrwyd.

Dywedodd bron i naw person o bob deg (87%) eu bod yn ymwybodol o setiau radio digidol, tra dywedodd 11% nad oeddent yn ymwybodol ohonynt. Dywedodd 6 o bob deg (60%) eu bod yn ymwybodol bod setiau teledu yn gallu cael gwasanaethau radio, tra roedd llai na chwech o bob deg yn ymwybodol bod cyfrifiaduron sydd wedi cysylltu â'r rhynggrwyd (56%) a ffonau clyfar (55%) yn gallu gwneud hynny.

⁸ Am resymau technegol, mae ansawdd sain y gwasanaethau sy'n cael eu darlledu gan ddefnyddio AM ar ei hôl hi'n gyffredinol o ran ansawdd sain FM ac efallai y bydd mwy o ymyriant ar y gwasanaeth.

Sain glir o safon uchel a mwy o ddewis o orsafoedd yw'r nodweddion mwyaf cyffredin sy'n cael eu profi gyda radio digidol

Gofynnwyd i wrandawyr radio digidol pa nodweddion o radio digidol yr oeddent wedi'u profi. "Sain glir o safon uchel" a "mwy o ddewis o orsafoedd" oedd y ddau ateb mwyaf poblogaidd, a ddewiswyd gan tua chwech o bob deg ymatebwr (63% a 57% y naill a'r llall), tra dywedodd 18% o wrandawyr nad oeddent wedi profi unrhyw rai o'r nodweddion a restrwyd.

Dywedodd pymtheg y cant o'r rheini sy'n gwrandao ar y radio ond heb set radio DAB gartref eu bod yn debygol o brynu set o'r fath yn y flwyddyn nesaf. Dywedodd dros un o bob pump (22%) nad oeddent yn gwybod a fyddent yn gwneud hynny, tra dywedodd 63% eu bod yn annhebygol o wneud hynny. Ymysg y rheini oedd yn annhebygol o wneud hynny, dywedodd tua chwech o bob deg (59%) mai oherwydd nad "oedd angen y gwasanaeth arnynt", tra dywedodd 42% eu bod "yn hapus i ddefnyddio'r gwasanaeth presennol".